# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 30 Hydref 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

### Cynlluniau i Ad-drefnu'r Cabinet

**C12 Ieuan Wyn Jones:** A oes gan Brif Weinidog Cymru unrhyw gynlluniau i ad-drefnu ei Gabinet dros y mis nesaf? (OAQ13195)

**Prif Weinidog Cymru:** Nac oes.

### Datblygiad Dociau Mostyn

**C13 Alison Halford:** Yn rhinwedd ei swydd fel cydgysylltwr polisi ar gyfer gogledd Cymru, pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael â P&O ynghylch datblygiad Dociau Mostyn? (OAQ13179)

**Prif Weinidog Cymru:** Y tro diwethaf i mi gwrdd â chynrychiolwyr P&O oedd pan ymwelais â phorthladd Mostyn ar 9 Mawrth. Mae swyddogion yn cysylltu'n rheolaidd â phorthladd Mostyn ynghylch y gwaith sy'n cael ei wneud yn yr orsaf fferïau ac ynglŷn â datblygu'r porthladd yn gyffredinol, y mae'r ddau'n hanfodol i economi'r Gogledd.

### Yr Ewro

**C14 Delyth Evans:** Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael ag arweinwyr busnes yng Nghymru ynghylch a fydd Prydain yn ymuno â'r ewro? (OAQ13170)

**Prif Weinidog Cymru:** Senedd San Steffan sydd i benderfynu ynghylch ymuno â'r ewro. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i ymgynghori â busnesau er mwyn sicrhau y gwneir digon o baratoi at weithio gyda'r ewro, ni waeth a fydd y DU yn aelod ai peidio. Fel rhan o'n cyfrifoldebau economaidd yr ydym yn cefnogi tasglu Cymru ar yr ewro.

*Tynnwyd cwestiwn 15 (OAQ13184) yn ôl.*